VICTIM SUPPORT

# TROSEDDAU CASINEB

Sut gallwn ni'ch helpu chi ar ôl trosedd

victimsupport.org.uk

02

Mae troseddau casineb yn seiliedig ar ragfarn yn erbyn elfennau o hunaniaeth unigolyn megis hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

Gallai troseddau casineb gynnwys difrod i eiddo, bygythiadau, lladrata, ymosod yn eiriol, ymosod yn gorfforol, aflonyddu a chamdriniaeth ar-lein.

Mae troseddau casineb yn gallu effeithio ar unrhyw un, ac mae'n gallu bod yn brofiad dychrynllyd a thrawmatig iawn. Mae'n gallu teimlo'n arbennig o bersonol gan fod rhywun wedi'ch targedu chi oherwydd yr hyn maen nhw'n meddwl ydych chi.

Rydyn ni yma i'ch helpu chi yn y cyfnod anodd hwn. Rydym yn cynorthwyo cannoedd o bobl bob dydd i ymdopi ag effeithiau troseddau.

## Beth gallwch chi ei wneud

Yr ymosodwr/wyr wnaeth y dewis i gyflawni trosedd casineb felly arnyn nhw mae'r bai bod hyn wedi digwydd, nid arnoch chi. Fodd bynnag, mae yna rai pethau y gallwch eu gwneud a allai wneud i chi deimlo'n fwy diogel a bod yn fwy diogel:

- Gwellwch ddiogelwch sylfaenol eich cartref – er enghraifft drwy ychwanegu cloeon a bolltiau at ddrysau a ffenestri
- Cadwch nodyn o amserau a dyddiadau pob digwyddiad a manylion yr hyn ddigwyddodd
- Sicrhewch fod rhywun yn mynd gyda chi os byddwch chi'n penderfynu adrodd am y drosedd i'r heddlu

- Os byddwch yn dod i gysylltiad â'r sawl sy'n gyfrifol, ceisiwch fynd i ffwrdd oddi wrthynt yn ddiogel neu ewch i fan mwy cyhoeddus
- Tynnwch eich rhif a'ch proffil oddi ar unrhyw restrau cyhoeddus
- Newidiwch/blociwch eich cyfeiriad e-bost
- Blociwch y troseddwr o'ch proffiliau cyfryngau cymdeithasol.

## Sut gallwn ni helpu

Rydym yn elusen annibynnol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

Does dim rhaid i chi riportio trosedd i gael derbyn cymorth gennym ni. Gallwn ni helpu yn y ffyrdd canlynol:

- Cefnogaeth bersonol gydag unigolyn sydd wedi cael hyfforddiant arbennig, mewn ffordd sy'n gweithio i chi. Siarad yn gyfrinachol, gofyn cwestiynau a chael cyngor a chefnogaeth emosiynol
- Eich rhoi chi mewn cysylltiad â chymorth, gwasanaethau neu gefnogaeth arbenigol gan eraill
- Cyngor a chefnogaeth wrth wneud cais am iawndal neu gymorth ariannol os ydych chi'n gymwys. (Bydd angen i chi adrodd am y drosedd i'r heddlu er mwyn gwneud cais)
- Gwybodaeth a chymorth ymarferol i wneud i chi deimlo a bod yn fwy diogel. Mewn rhai ardaloedd, gall hyn fod yn gymorth i ddiogelu'ch cartref

- Gwybodaeth ynglŷn ag adrodd i'r heddlu, y system cyfiawnder troseddol a gweithdrefnau'r llysoedd. Os byddwch chi'n dewis adrodd am drosedd, gallwn ni fynd gyda chi a'ch cefnogi chi wrth i chi wneud hynny
- Rydym yn gwybod bod troseddau'n effeithio ar yr holl deulu. Rydym yn cynnig cefnogaeth i bawb yr effeithir yn uniongyrchol arnynt, ac rydym yn helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi plant sy'n ymdopi ag effaith trosedd.

## Adrodd am droseddau casineb

Byddwn ni'n eich cefnogi chi, dim ots a ydych chi wedi adrodd am y drosedd ai peidio. Rydym yn deall ei bod yn bosib na fydd rhai pobl eisiau adrodd am droseddau casineb i'r heddlu, ac mae hynny'n iawn.

Fodd bynnag, petaech chi eisiau adrodd, gallwch wneud hynny yn y ffyrdd canlynol:

- Adrodd yn uniongyrchol i'r heddlu (**101** neu **999**)
- Defnyddio canolfannau adrodd trydydd-parti – adrodd i sefydliad trydydd-parti a fydd yn cyfathrebu â'r heddlu ac asiantaethau eraill ar eich rhan
- Adrodd yn ddienw ar y we **www.report-it.org.uk**

Os byddwch chi'n adrodd am y drosedd a bod y troseddwr yn wynebu achos llys ac yn cael eu dyfarnu'n euog, gall y llysoedd ystyried eu cymhelliant casineb wrth eu dedfrydu. Mae hynny'n golygu y gellid gosod dedfryd gryfach. Gall timau VS ddarparu rhagor o wybodaeth i chi ynglŷn ag adrodd am drosedd os byddwch chi'n awyddus i wneud hynny.

## Mae amrywiaeth o bwys ac rydym yn ei werthfawrogi

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi anghenion y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Gallwn ni ddarparu cyfieithwyr a gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Os oes gennych anghenion ychwanegol, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu rhoi'r gefnogaeth iawn yn ei lle.

## Sut i gysylltu

Mae ein manylion cysylltu ar glawr cefn y daflen hon. Gallwch ein galw ni wythnosau, fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd ar ôl trosedd Rydyn ni wastad yma i wrando ac i helpu.

Ewch i **victimsupport.org.uk** i gael rhagor o wybodaeth ac i ddod o hyd i wasanaethau yn agos atoch chi.

## Ble i fynd i gael cymorth:

Rydym yn elusen **annibynnol** sy'n cynnig cymorth **cyfrinachol am ddim** i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Supportline **08 08 16 89 111**
- defnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw 24/7: **victimsupport.org.uk/live-chat**
- defnyddio BSL: **victimsupport.org.uk/bsl**
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi'n helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**VictimSupport**

**victimsupport_uk**

**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

Stonewall DIVERSITY CHAMPIONS

disability confident EMPLOYER

MINDFUL EMPLOYER

 © 2025 Victim Support